*ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL*

Archwilio Mewnol
Cyngor Gwynedd

# CYNGOR CYMUNED LLANGYWER

# ARCHWILIAD MEWNOL
# CYNGOR CYMUNED LLANGYWER

**1. Bwriad yr Archwiliad**

1.1 Bwriad yr archwiliad oedd adolygu trefniadau ariannol a llywodraethu'r Cyngor yn unol â ymarfer priodol fel yr amlinellir yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru / Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol "Llywodraethu ac Atebolrwydd i Gynghorau Lleol yng Nghymru - Canllaw Ymarferydd 2019".

1.2 Roedd yr archwiliwr mewnol yn ymgymryd â rhaglen waith yn seiliedig ar asesiad o risg. Roedd cwmpas a maint yr archwiliad yn gymesur ag anghenion, maint ac amgylchiadau'r Cyngor, ac hefyd yn ddibynnol ar yr asesiad risg.

1.3 Yn sgil amgylchiadau anodd a dyrys COVID-19 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol dan sylw, mae'r archwiliad yn cydnabod bod angen i'r Cyngor wyro o'r rheoliadau sefydlog/ariannol er sicrhau parhad busnes ac er lles y Cynghorwyr a staff a thrigolion yr ardal. Yn ogystal, mae mesurau pellhau cymdeithasol y Llywodraeth wedi cyfyngu gallu yr archwiliwr i gyflawni archwiliad llawn o'r holl ddogfennau ac felly mae barn yr archwiliad yn seiliedig ar sampl yn unig.

**2. Prif Ddarganfyddiadau**

2.1 Dengys yn Atodiad A yr amcanion rheolaethol a brofwyd ac a gafwyd yn foddhaol.

**3. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**Gellir datgan sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu Cyngor Cymuned Llangywer ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20 yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd.**

**4. Cydnabyddiaeth**

4.1 Hoffai'r archwiliwr ddiolch i Lis Puw am y cymorth a'r cydweithrediad wrth baratoi'r adroddiad archwilio hwn.

**LUNED FÔN JONES**
**Rheolwr Archwilio**
Mehefin 2020

**ATODIAD A**

## AMCANION RHEOLAETHOL A DARGANFYDDIADAU'R ARCHWILIAD

Mae archwiliad mewnol y Cyngor, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Cyngor. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol isod ar y rheolaethau sy'n cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Cyngor.

- Llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn

- Bodlonwyd rheoliadau ariannol a chefnogwyd taliadau gan anfonebau
- Cymeradwyd gwariant
- Rhoddwyd cyfrif priodol am TAW

- Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli

- Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept o broses gyllidebu ddigonol
- Cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd
- Roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol

- Cafodd yr incwm disgwyliedig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n syth, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW

- Talwyd cyflogau i gyflogeion yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd
- Talwyd lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd
- Cymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol

- Cofrestrau asedau yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol

- Cysoniad cyfrif banc ar ddiwedd y flwyddyn wedi ei gynnal yn briodol

- Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, ac wedi'u cefnogi gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol